

**Q, Wynnstay 36, f. 139vb**

**Cwyn sarhaed**

Cwyn sarhaet.

Defnyd ac achos vy ghwyn yw, nyt amgen vod no dyuot Llewelyn ap Ieuan ap Llewelyn mywn dyd hispis, nyt amgen no duw Mawrth nessaf wedy duw Calan Mei diwethaf ar a lithrod o'r ty uywn y'r vlydyd honn, mywn troytle hispis, nyt amgen noc yn Llanveir ar y Bryn, o'r ty uywn y'r gyngellhoryaeth honn, ac y'r kydrychawl Llewelyn wneuthur sarhaet trwy argywed, nyt amgen no thyny dagyr a'm taro ar vy mhenn hyt pan torres kic a chroen ac eskyrn hyt yr ymhenyd; a bot y kytrychawl Llewelyn yn dala hynny mywn colof a diebryt, yn y trydyd diebryt ysyd yn y erbyn kyfreith: adaw argywed ar dyn neu ar y eidaw, heb wneuthur iawn na hedwch ymdanaw. Yr argywed hwinn a dangosset y'r neb a dylt y dangos, nyt amgen noc y swydogyon yr arglwyd. Ac yghyfeir y sarhaet a'r argywed hwinnw, vy mot yn deissyf atwerth vy sarhaet herwyd vy mreint; nyt amgen no'm bot yn eillt breyr. Sef yw meint y sarhaet: bywch a hanner, a dec ar hugein o'r keinogeu cwттаon, a their punt o'r vn ryw arian gyt a'r sarhaet yghyfeir gwelet yr ymhenyd, pedeir keinawc patell, pedeir keinoc dros wer, pedeir keinoc dros gynhyneu, keinoc dros oleuat beunoeth, keinoc dros vwyt y medic beunydyd, keinoc dros vwyt y claf beunydyd, pedeir keinoc o bob asgwrn ywch creuan a dynner o'r penn o'r a seino mywn kawc efyd; a hynny oll o'r keinogeu cwттаon; o bob asgwrn is kreuan, pedeir keinoc kyfreith. A bot Llewelyn kyndrychawl yn person cwbyl

ynghyfreith y wneuthur iawn ac y gymryt, a mineu yn person cwbyl y gymryt iawn ac y wneuthur, o byd a'e gouyno. Kyuarch Llewelyn y wybot a wnelei iawn kyn kwyn, a negydyath a vu bob amser o barthret y Llewelyn, ac am anegydyath Llewelyn y mae vy ghwyn. Deisyf ateb amserol.

## Q

### **Cwyn sarhaed**

Cwyn Sarhaed.

Defnydd ac achos fy nghwyn yw, dim modd arall na dyfod Llywelyn ap Ieuan ap Llywelyn ar ddydd hysbys, sef y dydd Mawrth nesaf ar ôl dydd Calan Mai diwethaf a basiodd yn y flwyddyn hon, mewn man hysbys, sef Llanfair-ar-y-bryn, yn y gyngelloriaeth hon, ac i'r presennol Lywelyn wneuthur sarhaed trwy anaf, sef tynnu dagra a'm taro ar fy mhen hyd nes i gig a chroen ac esgyrn dorri hyd at yr ymennydd; a bod y presennol Lywelyn yn dal hynny yn gudd ac mewn ataliad, yn un o'r tri ataliad sydd yn erbyn cyfraith: gadael anaf ar ddyn neu ar ei eiddo, heb wneuthur iawn na heddwch amdano. Dangoswyd yr anaf hwn i'r sawl y mae'n iawn ei ddangos iddynt, sef swyddogion yr arglwydd. Ac ar gyfer y sarhaed a'r anaf hwnnw, yr wyf yn deisyf ad-daliad o'm sarhaed yn ôl fy mraint: sef fy mod yn filain brëyr. Dyma faint y sarhaed: buwch a hanner, a deg ar hugain o geiniogau cwta, a thair punt o'r un math o arian gyda'r sarhaed ar gyfer gweld yr ymennydd, pedair ceiniog ar gyfer padell, pedair ceiniog ar gyfer gwêr, pedair ceiniog ar gyfer cadachau, ceiniog ar gyfer golau bob nos, ceiniog ar gyfer bwyd y meddyg bob dydd, ceiniog ar gyfer bwyd y claf bob dydd, pedair ceiniog ar gyfer pob asgwrn uwch y greuan a dynner o'r pen ac a seinio mewn padell efydd; a hynny oll o geiniogau cwta; ar gyfer pob asgwrn is y greuan, pedair ceiniog cyfraith. A bod y presennol Lywelyn yn berson cyflawn yn y gyfraith i wneuthur

iawn ac i'w gymryd, a minnau'n berson cyflawn i gymryd iawn ac i'w wneuthur, os bydd rhywun yn gofyn. Holais Lywelyn i wybod a wnelai iawn cyn y cwyn, a gwrthodiad a fu bob amser o ochr Llywelyn, ac am wrthodiad Llywelyn y mae fy nghwyn. Yn deisyf ateb prydlon.